

Ychwanegu eich traethawd ymchwil at ORCA

Bydd y canllaw cam wrth gam hwn yn eich arwain drwy'r broses o ychwanegu traethawd ymchwil, sgrîn wrth sgrîn.

Beth sydd ei angen ar waith arnaf cyn dechrau lanlwytho?

1. Y fersiwn derfynol o'r traethawd ymchwil wedi'i chymeradwyo, ar ôl ichi wneud unrhyw gywiriadau.

2. Ffurflen Cyhoeddi Traethawd Ymchwil a Thraethawd Hir Electronig wedi'i chwblhau.

Rhaid cwblhau a **llofnodi'r** ffurflen hon cyn ychwanegu'r traethawd hir at ORCA. Rhaid ysgrifennu'r llofnod â **llaw**, ni ddylai fod wedi'i deipio nac yn ddigidol. Gellir teipio'r adrannau eraill sydd i'w llenwi (enw, dyfarniad y radd, ariannwr ac ati). Cewch hyd i'r ffurflen ar [fewnrwyd y myfyrwyr](#).

3. Os oes angen gwahardd mynediad dros dro, sicrhewch fod y gwaith papur wedi'i gwblhau, ei lofnodi a'i anfon at y Gofrestrfa. Mae angen cymeradwyo ceisiadau i wahardd mynediad cyn lanlwytho i ORCA.

Rhai pethau i'w nodi am Waharddiad Mynediad:

- a. Mae Gwaharddiad Mynediad yn ymwneud â thestun llawn y traethawd ymchwil yn unig; nid yw'n cynnwys teitl neu grynodedb o'r traethawd ymchwil. Disgwylir i'r awdur roi crynodeb ar gyfer y cofnod. Mae gan yr awdur opsiwn i ailysgrifennu a chyflwyno crynodeb sy'n addas i'r cyhoedd ei weld nad yw'n sôn am unrhyw wybodaeth sensitif.
- b. Os caniateir Gwaharddiad, ni all neb lawrlwytho'r traethawd ymchwil o ORCA yn ystod cyfnod y Gwaharddiad; mae hynny'n cynnwys yr awdur a'r goruchwyliwr/goruchwylwyr. Os yw'r awdur yn dymuno rhannu'r traethawd ymchwil yn breifat gyda chydweithwyr yn ystod y cyfnod y mae wedi'i gyfyngu, mae'n rhaid iddo wneud yn siŵr bod ganddo ei gopi digidol neu brint ei hun.

Ystyriaethau eraill

1. Gall yr awdur ddewis trwydded Comin Creu ar gyfer y traethawd ymchwil sy'n pennu sut y gallwch aildefnyddio'r gwaith pan gaiff ei ddarllen a'i lawrlwytho gan eraill. I gael rhagor o wybodaeth am y trwyddedau hyn, gweler <https://creativecommons.org>.
2. Sicrhewch eich bod wedi cael unrhyw ganiatâd angenrheidiol ar gyfer yr hawlfraint trydydd parti. Ceir rhagor o wybodaeth ar y dudalen [Hawlfraint a'ch e-draethawd ymchwil](#) ar fewnrwyd y myfyrwyr, a gallwch hefyd gysylltu â thîm Hawlfraint y Llyfrgell yma copyright@caerdydd.ac.uk

Lanlwytho'r traethawd ymchwil i ORCA

Ewch i www.orca.cf.ac.uk.


Cliciwch ar y tab **Mewngofnodi i'r Adran i Ddefnyddwyr** (*User Area Login*) ar yr ochr chwith, a mewngofnodi gyda'ch enw defnyddiwr a chyfrinair Prifysgol Caerdydd. Caiff cyfrif ei greu yn awtomatig ar eich cyfer.

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi'n llwyddiannus, cliciwch ar **Reoli Ychwanegiadau** (*Manage Deposits*) ar y bar offer llorweddol ar frig y sgrîn. Ar y sgrîn Rheoli Ychwanegiadau, cliciwch ar y botwm **Eitem Newydd** (*New Item*) glas.

Ar bob sgrîn, nodir y meysydd gorfodol gyda'r symbol .

Sgrîn 1: Math o Eitem (*Item Type*)

Byddwch yn gweld rhestr o fathau o eitemau. Dewiswch 'Traethawd Ymchwil' (*Thesis*) a chlicio ar y botwm glas Nesaf (*Next*).



Save and Return Cancel Next >

Item Type ?


- Article**
An article in a journal, magazine, newspaper. Not necessarily peer-reviewed. May be an electronic-only medium, such as an online journal or news website.
- Book**
A book or a conference volume.
- Book Section**
A chapter or section in a book.
- Conference or Workshop Item**
A paper, poster, speech, lecture or presentation given at a conference, workshop or other event.
- Monograph**
A monograph. This may be a technical report, project report, documentation, manual, working paper or discussion paper.
- Thesis**
A thesis or dissertation.

Sgrîn 2: Lanlwytho (*Upload*)

Dyma ble byddwch yn lanlwytho prif ffeil y traethawd hir a'r Ffurflen Cyhoeddiadau Electronig. Gellir hefyd lanlwytho unrhyw ffeiliau atodol, megis atodiadau neu ddelweddu yma.

I lanlwytho, cliciwch ar y botwm Dewis Ffeil (*Choose File*) llwyth (Chrome) neu'r botwm Pori (*Browse*) (IE/Firefox).

Dewiswch y ffeil briodol. Pan fydd y ffeil wedi'i lanlwytho, bydd y sgrîn ganlynol yn ymddangos:



Add a new document

To upload a document to this repository, click the Browse button below to select the file and the Upload button to upload it to the archive. You may then add additional files to the document (such as images for HTML files) or upload more files to create additional documents.

You may wish to use the [SHERPA JOURNALS](#) tool to verify publisher policies before depositing.

File From URL

Choose File No file chosen

PDF 664kB

Show options

I ddisgrifio'r ffeil ac ychwanegu unrhyw embargo neu wybodaeth am drwydded, cliciwch ar y botwm 'Dangos Dewisiadau' (*Show Options*) glas. Bydd yr opsiynau canlynol yn ymddangos:

PDF 664kB

Content: UNSPECIFIED

Type: PDF

Description:

Visible to: Anyone

License: UNSPECIFIED

Has a Bar on Access been agreed:

 Yes

 No

 UNSPECIFIED

Embargo/Bar on Access expiry date: Year: Month: Unspecified Day: ?

Update Metadata

Ar gyfer prif ffeil y traethawd ymchwil, dylid cwblhau'r canlynol:

Cynnwys: Fersiwn Ôl-argraffu a dderbyniwyd (*Accepted Post-Print*)

Math: PDF (dylai hwn fod yn ddiodyn yn awtomatig)

Disgrifiad: Gwag

Yn weladwy i: *Staff ystorfa'n unig/Unrhyw un*

- Os gellir sicrhau bod y traethawd ymchwil ar gael i bawb ar unwaith, dewiswch **Unrhyw un** (*Anyone*)
- Os oes gan y traethawd ymchwil waharddiad ar fynediad y cytunwyd arno, dewiswch **Staff Ystorfa'n Unig** (*Repository Staff Only*)

SYLWER: Y statws diodyn yw y bydd y traethawd ymchwil ar gael i bawb ar unwaith. Os bydd y traethawd dan embargo, rhaid ichi nodi hynny drwy ei gyfyngu fel yr uchod.

Trwydded: Gweler y wybodaeth uchod am drwyddedau. Os nad ydych yn dymuno ychwanegu trwydded, gadewch yn AMHENODOL (UNSPECIFIED).

Dyddiad y daw'r embargo i ben: Bydd yr embargo'n dechrau o'r dyddiad y caiff y traethawd ymchwil ei ychwanegu at ORCA.

Dylid lanlwytho'r ffurflen gyhoeddi nesaf. Dilynwch yr un broses i lanlwytho ag uchod.

Disgrifiwch y ffeil fel a ganlyn:

Cynnwys: *Deunydd Ategol*

Math: PDF

Disgrifiad: Gwag

Yn weladwy i: *Staff Ystorfa'n Unig*

Trwydded: Amhenodol

Dyddiad y daw'r embargo i ben: Gwag

Caiff y ffurflen gyhoeddi ei chadw'n gyfyngedig bob amser. Ni ddylai byth fod yn weladwy i'r cyhoedd.

Lanlwytho unrhyw ffeiliau ychwanegol

Er ein bod yn nodi y dylai ffurflenni caniatâd a dogfennau traethawd hir fod ar fformat PDF, caiff ffeiliau atodol ac atodiadau eu derbyn ar unrhyw fformat a gefnogir gan E-argraffiadau. I wirio pa fformatau a gefnogir, cliciwch ar y saeth ger 🌟 **Math**.

Sgrîn 3: Manylion

Teitl: Ychwanegwch deitl y traethawd ymchwil fel y mae'n ymddangos ar glawr blaen y dudalen teitl.

Crynodeb: Copiwch a gludwch y crynodeb i'r maes hwn. Fel y nodwyd uchod, os oes Gwaharddiad ar Fynediad ar y traethawd ymchwil a bod y crynodeb yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu ganlyniadau cyfrinachol, gallwch gyflwyno fersiwn wedi'i hailysgrifennu yma.

Math o draethawd ymchwil: Dewiswch y math o draethawd ymchwil sy'n disgrifio'r traethawd ymchwil orau. Defnyddiwch Arall (*Other*) os nad yw'r math o draethawd ymchwil yn ymddangos ar y rhestr o opsiynau sydd ar gael.

Crewyr (Creators): Dyma awdur y traethawd ymchwil.

Pan fyddwch yn dechrau teipio enw cyntaf ac olaf yr awdur, dylai llenwi'n awtomatig a gallwch ddewis manylion yr awdur o'r gwymplen. Yna bydd yn llenwi'r cyfeiriad ebost a chyfeirnod yr awdur yn awtomatig fel yn y sgrinlun isod:

	Family Name	Given Name / Initials	Email	Unique ID
1.	Harrington	Louise	HarringtonLE1@cardiff.ac.	A002228D
2.				
3.				
4.				

More input rows

Os yw'r awdur wedi gadael y Brifysgol ac nid oes bellach ganddo gyfeiriad ebost a chyweirnod, llenwch y meysydd hyn â llaw.

Manylion cyhoeddi

Dyddiadau: Nodwch y dyddiad y cwblhawyd y traethawd ymchwil fel y dengys ar dudalen flaen y traethawd ymchwil, **nid** y dyddiad y caiff ei gyflwyno i ORCA. Dewiswch 'wedi'i gwblhau' (*Completed*) o'r gwymplen 'Digwyddiad' (*Event*) (gweler y sgrinlun isod)

🌟 **Dates:** 1. Year: 2018 Month: December Day: ? Event: Completed

More input rows

Sefydliad: Prifysgol Caerdydd (nid yr ysgol unigol)

Nifer y tudalennau: Nifer y tudalennau yn y traethawd ymchwil.

Statws mynediad agored: Gallwch adael y maes hwn yn wag. Caiff ei gwblhau gan dîm yr ystorfa wrth adolygu.

URLs cysylltiedig: Gadewch yn wag.

Arianwyr: Rhowch fanylion am unrhyw arianwyr yma. Os oes gennych fwy nag un ariannwr, nodwch nhw ar linell ar wahân. I greu llinell arall, cliciwch ar y tab 'Rhagor o Resi Mewnbynnu' (*More input rows*).

Prosiectau: Os oedd y PhD yn rhan o brosiect penodol a ariannwyd, gallwch nodi enw neu rif y prosiect yma.

Cyfeiriad ebost cyswllt: Gadewch yn wag.

Cyfeiriadau: Gadewch yn wag.

Iaith heblaw am Saesneg: Os ysgrifennwyd y traethawd ymchwil mewn iaith heblaw am Saesneg, gallwch ddefnyddio'r maes hwn i nodi'r iaith honno.

Gwybodaeth ychwanegol: Mae'r maes hwn fel arfer yn wag, ond os oes unrhyw wybodaeth arall yr hoffech ei hychwanegu at y cofnod yr ydych yn hapus i unrhyw un sy'n edrych arno ei gweld, gallwch ei hychwanegu yma. Sylwer bod y cyhoedd yn gallu gweld y maes hwn.

Cyfeirnod yr Ysgol: Gwag.

Nodiadau Ymchwil yr Ysgol: Gwag.

Sylwadau ac awgrymiadau: Gallwch ychwanegu nodiadau yma a fydd o ddefnydd i dîm yr ystorfa. Nid yw'r bobl sy'n ymweld â gwefan ORCA yn gallu gweld y maes hwn.

Sgrîn 4: Pynciau ac ysgolion

Pynciau: Gallwch ddewis un pwnc neu ragor o'r opsiynau sydd ar gael i ddisgrifio cynnwys y traethawd ymchwil. Nid yw'r maes hwn yn orfodol.

Ysgolion: Dewiswch yr ysgol(ion) y mae'r awdur yn gysylltiedig â hi/nhw.

Ychwanegu eitem

Rydych bellach yn barod i ychwanegu eich traethawd hir.

Cliciwch **Cadw a Chau (Save and Return)**. Bydd hyn yn eich tywys at sgrîn ichi gael cipolwg ar sut olwg fydd ar y cofnod. Os bydd angen ichi wneud newidiadau, gallwch wneud hynny drwy ddychwelyd i'r tab Manylion (*Details*), a chlicio ar y botymau golygu eitem ar yr ochr chwith.

Rhestr wirio

A lanlwythwyd ffeil derfynol y traethawd ymchwil, wedi'i chymeradwyo a'i chywiro?	
A yw'r Ffurflen Cyhoeddi Traethawd Ymchwil a Thraethawd Hir Electronig a lofnodwyd wedi'i lanlwytho?	
Os oes angen Gwahardd Mynediad, a yw'r gwaith papur perthnasol wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo?	
Os felly, a yw'r sgrîn Lanlwytho'n nodi'r Gwaharddiad?	
A ydych wedi lanlwytho unrhyw ffeithiau atodol (delweddau, atodiadau) os oes angen?	

Os ydych yn barod i gyflwyno'r traethawd ymchwil i ORCA, cliciwch ar y botwm **Ychwanegu (Deposit)** glas ac yna Ychwanegu eitem nawr (*Deposit item now*). Byddwch yn gweld neges ar y sgrîn

yn dweud: *'Mae'r eitem hon yn cael ei hadolygu. 'Ni fydd yn ymddangos yn yr ystorfa nes bod golygydd wedi'i gwirio.'*

Bydd aelod o dîm yr ystorfa'n gwirio'r traethawd ymchwil. Bydd y sawl sy'n ychwanegu eitem yn cael ebost gyda dolen i'r traethawd ymchwil pan fydd y traethawd ymchwil wedi'i symud i'r ystorfa fyw. Sylwer y caiff yr ebost bob amser ei anfon at gyfeiriad ebost Prifysgol Caerdydd y sawl sy'n ychwanegu eitemau.

Gwiriwch y ddolen i wneud yn siŵr bod yr holl fanylion yn gywir.

I gael cymorth a chynghor ynghylch lanlwytho ar ORCA, cysylltwch â ni drwy ebostio orca@caerdydd.ac.uk neu ffonio est.76123.

Os oes gennych ymholiadau ynghylch gwahardd mynediad neu ymestyn gwaharddiadau mynediad, cysylltwch â'r Gofrestrfa drwy ebostio PGR@caerdydd.ac.uk